


Sut i gyrraedd yno:

Trafnidiaeth gyhoeddus: (pob un yn hygyrch i gadeiriau olwyn). Bws gwasanaeth 412 (Hwlfordd i Aberteifi). Roced Poppit. Bws Cerddwyr Draig Werdd y Preseli (tymhorol: 0800 783 1584).

Eich trafndiaeth eich hun: Gogledd Sir Benfro, dechreuwch y daith o'r maes parcio yng nghanol y dref yn Nhrefdraeth. (Tâl yn ystod y prif dymor). Dewch ar gefnfordd yr A487.



Cyfeirnod grid y man cychwyn: SN056392

Toiledau: yn y maes parcio.

Mae yna le parcio a thoiledau (tymhorol) yn Nhrefdraeth Parrog hefyd (rhad ac am ddim).

Tref ac Aber Trefdraeth

Taith fynediad hwylus: 1.6 milltir (2.7 km), 1.5 milltir (2.5 km) os ydych yn dilyn y llwybr tarw.

Cymeriad: tref hynafol brydferth a golygfeydd dros yr aber, y cyfan ar lwybrau gwastad gydag arwyneb. Llethrau i fyny ac i lawr.



© Dai Phillips

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park**



Disgrifiad

Mae yna arwyneb ar hyd y daith hon, gyda phalmentydd wedi eu gostwng yn y dref, a llwybr llyfn gydag arwyneb o gerrig wedi ei wneud yn arbennig at y diben ar hyd Aber y Nyfer.

Yn Heol Hir (ble mae'r maes parcio) mae yna raddiant o hyd at 1:20, gyda rhai adrannau sy'n 1:12; mae'r daith yn mynd i fyny'r tyle ar yr heol hon. Mae yna raddiant o 1:20 ar Heol y Parrog hefyd, gydag un adran 1:15 ac adran 1:12; mae'r daith yn dilyn yr heol hon i lawr y tyle. Os ydych yn dilyn y llwybr tarw fe fyddwch yn osgoi adrannau mwyaf serth y daith.

Mae enw'r dref, Trefdraeth yn cyfeirio at y ffaith fod yma

draeth a thref, wrth gwrs. Mae yna ddau draeth yn Nhrefdraeth, wedi eu gwahanu gan yr Afon Nyfer: y Parrog ac, ar draws yr aber, Traeth Trefdraeth. Dyma le hynod o ddiddorol. Fe'i sylfaenwyd fel Novus Burgus tua 1200 gan Arglwydd Normanaidd Cemaes. Mae gosodiad y strydoedd wedi glynu'n agos at batrwm grid y dref newydd Normanaidd a'r castell yw prif dirnod y dref o hyd.

Mae gan y dref siambr gladdu Neolithig hefyd, sef Carreg Coetan Arthur, castell o'r 16eg ganrif (y mae pobl yn dal i fyw ynndo heddiw) ac Eglwys hyfryd y Santes Fair. Gwelwyd rhai o drefi newydd y Normaniaid yn ffynnu, ac eraill yn methu. Roedd Trefdraeth yn llwyddiannus, a

daeth yn gymuned masnachu ac adeiladu cychod. O'r 16eg ganrif hyd nes i'r rheilffyrdd ladd llawer o'r fasnach arfordirol, allforiwyd nwyddau fel gwllân, llechi a phenwaig o stordai yn y Parrog.

Cyfarwyddiadau

Taith Gyfan: Trowch i'r dde allan o'r maes parcio. Wrth fynd i fyny'r tyle, mae'r stryd yn mynd yn fwy serth tuag at y groesfan (hyd at 1:12). Trowch i'r dde wrth y groesfan (graddiant croes sy'n 1:10) a dilynwch y palmant. Trowch i'r dde eto arno i Heol y Parrog (1:15 i lawr am 64 metr), dilynwch yr heol i lawr (adran 1:12 am 60 metr ymhellach i lawr) ac ar ôl y tai ar y dde, trowch i'r dde arno i Lwybr yr Arfordir wrth y postyn pwyntio.

Llwybr Tarw: Croeswch y nant ar ddiwedd y maes parcio gan ddefnyddio'r bont ar y chwith. Trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr rhwng y tai. Wedi cyrraedd ardal agored, trowch i'r chwith ac

yna i'r dde ar y palmant, ac yna ewch yn syth ymlaen rhwng y tai. Wedi cyrraedd yr heol, trowch i'r dde, dilynwch yr heol i lawr (adran 1:12 am 60 metr) ac ar ôl y tai ar y dde trowch i'r dde arno i Lwybr yr Arfordir wrth y postyn pwyntio.

Dilynwch y llwybr ar hyd yr aber yr holl ffordd at yr heol, gan anwybyddu'r llwybrau ar y dde. Mae yna adran 20 metr gyda chambr croes o 1:20. Ble mae'r llwybr yn croesi pont mae yna raddiant o 1:10 i fyny am 13 metr a graddiant o 1:12 i lawr am 15 metr.

Wedi cyrraedd yr heol, ewch yn ôl yr un ffordd, anwybyddwch y llwybr cyntaf ar y chwith gydag arwydd at yr Hostel Ieuentid (YHA), a throwch i'r chwith arno i lôn a tharmac (dyma Heol Hir). Dilynwch Heol Hir i fyny'r tyle hyd nes cyrraedd y maes parcio. Mae'r graddiant hyd at 1:20 yn bennaf, ond mae yna ychydig o adrannau sy'n 1:12.



